

Nodweddion allweddol a chytundeb y cwsmer

**Nodweddion
allweddol**

Tudalen 2

**Cytundeb
y cwsmer**

Tudalen 3

**Cysylltu a
chymorth**

Tudalen 20

Cadwch y ddogfen hon i gyfeirio ati

Nodweddion allweddol

Beth yw Bond Premiwm NS&I?

Mae'n fuddsoddiad sy'n rhydd rhag treth ac, yn hytrach na thalu llog, mae rhifau'r Bondiau'n cael eu cynnwys mewn cystadleuaeth tynnu rhifau fisol am gyfle i ennill gwobrau ariannol sy'n werth rhwng £25 ac £1 filiwn.

Nodweddion allweddol Bondiau Premiwm:

- Gall unrhyw un sy'n 16 oed ac yn hŷn brynu Bondiau, naill ai i'w hunain neu fel rhodd i blentyn o dan 16 oed.
 - Y lleiafswm ar gyfer pob buddsoddiad yw £25.
 - Yr uchafswm y gellir ei ddal yw £50,000 fesul unigolyn.
 - Y lleiafswm y gellir ei godi yw £1. Nid oes angen rhoi rhybudd ac fe'i telir i gyfrif banc enwebedig.
 - Mae'r gystadleuaeth tynnu rhifau fisol yn cynnwys dau jacpot gwerth £1 filiwn bob mis – gweler taflen manylion y gystadleuaeth tynnu rhifau neu ewch i **nsandi.com**.
 - Mae pob gwobr yn rhydd rhag Treth Incwm a Threth Enillion Cyfalaf y Deyrnas Unedig.
 - Gall gwobrau gael eu talu'n syth i'ch cyfrif banc enwebedig, eu hailfuddsoddi mewn rhagor o Bondiau neu eu talu trwy siec.
 - Gallwch eu rheoli ar-lein a thros y ffôn os byddwch yn cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn.
-

Ynglŷn â'r gystadleuaeth tynnu rhifau

Rydyn ni'n defnyddio peiriant o'r enw ERNIE (Cyfarpar Dangosydd Rhif Ar Hap Electronig) i gynhyrchu rhifau'r Bondiau buddugol bob mis. Mae allbwn ERNIE yn gyfan gwbl ar hap, felly mae'n amhosibl i unrhyw un ragfynegi'r rhifau neu ddylanwadu ar y canlyniadau. Bob mis, mae Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) yn cynnal gwiriad annibynnol i sicrhau bod allbwn ERNIE ar hap. Yna, mae GAD yn rhoi tystysgrif i gadarnhau nad oes ganddi unrhyw reswm i gredu nad yw'r gystadleuaeth tynnu rhifau ar hap. Ni allwn gyhoeddi rhifau buddugol a thalu gwobrau hyd nes y rhoddir y dystysgrif honno.

Pan fydd y rhifau ar hap wedi'u cynhyrchu, byddwn yn eu paru yn eu trefn â rhifau Bond cymwys i bennu'r enillwyr ffodus. Felly, mae gan bob rhif Bond gwerth £1 yr un siawns yn union o ennill, ni waeth pryd na ble y prynoch eich Bondiau

Cytundeb y cwsmer

28 February 2022

Mae dwy ran i'r cytundeb hwn. Mae'n cynnwys telerau'r cyfrif ar gyfer ein Bondiau Premiwm, a'r telerau cyffredinol ar gyfer cynilo ag NS&I.

Darllenwch y ddwy ran yn ofalus. Os bydd unrhyw wahaniaethau rhwng telerau'r cyfrif a'r telerau cyffredinol, telerau'r cyfrif fydd yn berthnasol. Os nad ydych yn siŵr am rywbeth, cysylltwch â ni a byddwn yn hapus i helpu.

Telerau'r cyfrif Ynglŷn â'n Bondiau Premiwm

Beth yw Bondiau Premiwm?

Nid yw Bondiau Premiwm yn talu llog. Yn hytrach, maen nhw'n rhoi'r cyfle i chi ennill gwobrau ariannol mewn cystadleuaeth tynnu rhifau fisol. Am bob £1 rydych chi'n ei buddsoddi, byddwn yn rhoi rhif unigryw i chi. Po fwyaf o rifau sydd gennych, po fwyaf yw'ch cyfle i ennill gwobr. Mae o leiaf un wobwr gwerth £1 filiwn bob mis, ac amrywiaeth o wobrau eraill o werthoedd gwahanol. Mae'r gwobrau'n rhydd o dreth incwm a threth enillion cyfalaf y Deyrnas Unedig. Gallwch gael eich arian yn ôl pryd bynnag y dymunwch.

Pwy all brynu Bondiau Premiwm?

I brynu Bondiau Premiwm, rhaid i chi fod yn 16 oed o leiaf. Hefyd, gallwch brynu Bondiau Premiwm:

- i blant o dan 16 oed
- ar ran oedolyn arall os ydych yn gweithredu fel atwrnai neu ddirprwy ar ei ran.

Ni ellir dal Bondiau Premiwm ar y cyd nac mewn ymddiriedolaeth.

Sut i brynu Bondiau Premiwm

- Gallwch wneud cais i brynu Bondiau Premiwm ar-lein, dros y ffôn, drwy'r post neu drwy symud arian o gyfrif arall NS&I, ond mae rhai cyfyngiadau

Os byddwch yn prynu i chi'ch hun

Y tro cyntaf i chi fuddsoddi, gallwch brynu ar-lein, dros y ffôn, drwy'r post neu drwy symud arian o gyfrif arall NS&I. Ar ôl i chi brynu'ch Bondiau Premiwm cyntaf, gallwch hefyd brynu rhagor o Fondiau trwy drosglwyddiad electronig.

Sut gallwch chi dalu:

- ar-lein neu dros y ffôn gan ddefnyddio eich cerdyn debyd a roddwyd gan fanc yn y Deyrnas Unedig
- drwy'r post gan ddefnyddio siec bersonol (yn daladwy i NS&I) wedi'i thynnu ar eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig, neu ddrafft banc neu siec cangen cymdeithas adeiladu
- symud arian o gyfrif arall NS&I – ewch i **nsandi.com/switching** neu ffoniwch ni
- trwy drosglwyddiad electronig o'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig.

Os byddwch yn prynu ar ran eich plentyn o dan 16 oed

Gallwch brynu ar-lein, dros y ffôn neu drwy'r post, neu drwy symud arian o gyfrif arall NS&I yn enw'r plentyn. Os byddwch chi'n symud arian, rhaid i chi fel rhiant neu warcheidwad fod yn gyfrifol am y cyfrif rydych chi'n symud arian ohono ac am y Bondiau Premiwm newydd. Ar ôl i'ch plentyn ddal ei Fondiau Premiwm cyntaf, gallwch hefyd brynu rhagor o Fondiau iddo trwy drosglwyddiad electronig.

Sut gallwch chi dalu:

- ar-lein neu dros y ffôn gan ddefnyddio eich cerdyn debyd a roddwyd gan fanc yn y Deyrnas Unedig
- drwy'r post gan ddefnyddio siec bersonol (yn daladwy i NS&I) wedi'i thynnu ar eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig, neu ddrafft banc neu siec cangen cymdeithas adeiladu
- symud arian o gyfrif arall NS&I – ewch i **nsandi.com/switching** neu ffoniwch ni
- trwy drosglwyddiad electronig o'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig.

Os byddwch yn prynu ar ran plentyn rhywun arall sydd o dan 16 oed

Gallwch brynu ar-lein neu drwy'r post. Ar ôl i'r plentyn ddal ei Fondiau Premiwm cyntaf, gallwch hefyd brynu rhagor o Fondiau iddo trwy drosglwyddiad electronig.

Sut gallwch chi dalu:

- ar-lein neu dros y ffôn gan ddefnyddio eich cerdyn debyd a roddwyd gan fanc yn y Deyrnas Unedig
- drwy'r post gan ddefnyddio siec bersonol (yn daladwy i NS&I) wedi'i thynnu ar eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig, neu ddrafft banc neu siec cangen cymdeithas adeiladu
- trwy drosglwyddiad electronig o'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig.

Pan fyddwn wedi derbyn eich cais, byddwch yn cael cadarnhad o'ch rhifau Bondiau Premiwm a dyddiad a gwerth y buddsoddiad. Os byddwch yn prynu ar ran plentyn rhywun arall, byddwn yn anfon y cadarnhad hwn at y rhiant neu'r gwarcheidwad, ac yn anfon cydnabyddiaeth atoch chi.

Faint gallwch chi ei fuddsoddi

Y lleiafswm ar gyfer pob buddsoddiad yw £25. Gallwch fuddsoddi mewn punnoedd cyfan yn unig.

- Gall pob unigolyn ddal hyd at uchafswm o £50,000. Ni fydd unrhyw rifau Bondiau Premiwm y tu hwnt i'r uchafswm o £50,000 yn gymwys i ennill gwobrau. Os tynnir rhif y tu hwnt i'r uchafswm a thelir gwobr ar gam, mae gennym yr hawl i adennill y wobr.

Os byddwch yn ceisio prynu Bondiau Premiwm a down i wybod y byddai eich taliad yn mynd â chi heibio i'r uchafswm:

- yn achos taliadau electronig, bydd ein system yn dychwelyd y taliad cyfan i chi'n awtomatig
- yn achos taliadau a wnaed drwy'r post, byddwn yn dychwelyd yr arian dros ben i chi. Yr arian dros ben yw'r swm a brynoch a fyddai'n mynd â chi heibio i'r uchafswm o £50,000.

Pryd bydd eich Bondiau Premiwm yn cael eu cynnwys yn y gystadleuaeth tynnu rhifau

Gan amlaf, bydd angen i chi eu dal am fis cyfan cyn iddynt fod yn gymwys ar gyfer y gystadleuaeth tynnu rhifau. Er enghraifft, os byddwch yn prynu Bondiau Premiwm rywbryd ym mis Tachwedd, byddant yn cael eu cynnwys yng nghystadleuaeth tynnu rhifau mis Ionawr.

Os byddwch yn prynu'ch Bondiau Premiwm trwy ailfuddsoddi'ch gwobrau yn awtomatig, byddant yn cael eu cynnwys yng nghystadleuaeth y mis canlynol.

Er enghraifft, os byddwch yn ennill ym mis Tachwedd, bydd eich rhifau newydd yn cael eu cynnwys yng nghystadleuaeth mis Rhagfyr.

Pan fydd Bondiau Premiwm yn gymwys ar gyfer y gystadleuaeth tynnu rhifau, byddant yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth yn fisol ar yr amod eich bod yn dal y Bond ar ddiwrnod cyntaf y mis.

Mwy am y gystadleuaeth tynnu rhifau

Bydd o leiaf un wobr gwerth £1 filiwn ym mhob cystadleuaeth tynnu rhifau fisol. Mae ein gwefan yn rhoi gwerth y gwobrau unigol ynghyd ag amcan o nifer y gwobrau o bob gwerth ym mhob cystadleuaeth tynnu rhifau.

Gall rhif Bond Premiwm sy'n werth £1 ennill un wobr yn unig ym mhob cystadleuaeth tynnu rhifau fisol. Os caiff rhif Bond Premiwm cymwys ei dynnu fwy nag unwaith mewn cystadleuaeth, byddwn yn rhoi'r wobr uchaf y tynnwyd y rhif ar ei chyfer.

Rydym yn talu'r gwobrau o gronfa wobrau, gan gyfrifo'r gronfa hon fel canran o gyfanswm gwerth y Bondiau Premiwm sy'n gymwys ar gyfer y gystadleuaeth tynnu rhifau y mis hwnnw. Bydd y ganran hon yn ddeuddegfed ran o gyfradd y gronfa wobrau flynyddol. Oherwydd bod y gwobrau'n cael eu dyfarnu ar hap, gallai'r enillion ar eich Bondiau Premiwm fod yn fwy neu'n llai na'r gyfradd hon

Gall cyfradd y gronfa wobrau, gwerthoedd y gwobrau, y siawns o ennill a'r ffordd rydym ni'n dyrannu nifer y gwobrau o bob gwerth newid o bryd i'w gilydd. Edrychwch ar ein gwefan yn rheolaidd i gael gwybod am y newidiadau diweddaraf.

Sut rydym yn talu gwobrau

Gallwch ddewis i wobrau gael eu talu i'ch cyfrif enwebedig, eu hailfuddsoddi'n awtomatig mewn mwy o Fondiau Premiwm neu eu talu drwy warant (fel siec) a fydd yn cael ei phostio i'ch cyfeiriad cartref.

Os dewiswch daliad i'ch cyfrif enwebedig neu ailfuddsoddi'n awtomatig, byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw wobrau a enillwch drwy e-bost neu neges destun.

Os byddwch yn ennill £5,000 neu fwy, efallai byddwn yn cadarnhau'ch dymuniadau gyda chi cyn i ni dalu neu ailfuddsoddi'ch gwobr - gweler **[nsandi.com/have-i-won](https://www.nsandi.com/have-i-won)** am ragor o fanylion neu ffoniwch ni.

Sut i gael gwybod a ydych wedi ennill

Pan fydd canlyniadau cystadleuaeth tynnu rhifau ar gael, gallwch edrych i weld a ydych wedi ennill ar ein gwefan neu drwy'r ap gwirio gwobrau.

Mae penderfyniad NS&I yn derfynol

Ni yn unig sy'n gyfrifol am bob penderfyniad ynglŷn â'r cystadlaethau tynnu rhifau a dyrannu gwobrau. Mae ein penderfyniadau ynglŷn â pha Fondiau Premiwm sydd wedi ennill gwobrau yn derfynol.

Tynnu arian allan

- Gallwch gyfnewid rhai o'ch Bondiau Premiwm, neu'r cyfan ohonynt, am arian pryd bynnag y dymunwch. Gan fod pob rhif Bond Premiwm yn werth £1, rhaid i'r swm rydych chi'n ei gyfnewid am arian fod mewn punnoedd cyfan. Ni allwch werthu na rhoi eich Bond Premiwm i rywun arall.

Os byddwch yn gofyn i ni gyfnewid am arian dros y ffôn neu ar-lein, byddwn ni'n dewis pa Fondiau Premiwm a rhifau Bondiau Premiwm i'w cyfnewid am arian. Fel arfer, byddwn yn cyfnewid eich Bondiau Premiwm hynaf am arian yn gyntaf. Drwy'r post yn unig y gallwch ofyn pa Fondiau Premiwm sy'n cael eu cyfnewid am arian. Oherwydd ein bod ni'n cyhoeddi Bondiau Premiwm mewn cyfresi o rifau dilynol, byddwn yn mynd â rhifau o ddiwedd y gyfres os byddwch yn cyfnewid rhan yn unig o Fond Premiwm am arian. Ni allwch ddewis cyfnewid rhifau Bond Premiwm penodol am arian.

Gallwch wneud cais ymlaen llaw i ni gyfnewid eich Bondiau Premiwm am arian yn dilyn y gystadleuaeth tynnu rhifau nesaf. Os felly, byddwch yn gallu newid neu ddileu eich cais hyd at y diwrnod cyn dau ddiwrnod gwaith olaf y mis.

Fel arall, ni allwch atal na newid cyfarwyddyd i gyfnewid am arian.

- Os byddwch yn gwneud cais i gyfnewid eich Bondiau Premiwm am arian yn ystod dau ddiwrnod gwaith olaf y mis, byddwn fel arfer yn oedi cyn cyfnewid am arian fel bod eich Bondiau Premiwm yn cael eu cynnwys yng nghystadleuaeth tynnu rhifau'r mis nesaf. Gwnawn hyn fel y gallwn bennu'n derfynol nifer y Bondiau sy'n gymwys ar gyfer y gystadleuaeth tynnu rhifau.
-

Os bydd deiliad Bondiau Premiwm yn marw

Os bydd deiliad Bondiau Premiwm yn marw, bydd y Bondiau Premiwm yn dod yn rhan o'i ystâd. Bydd y Bondiau Premiwm yn parhau i gymryd rhan mewn cystadlaethau tynnu rhifau am 12 mis yn dilyn dyddiad ei farwolaeth, oni bai y cânt eu cyfnewid am arian cyn hynny.

Bondiau Premiwm i blant

Gall plant o dan 16 oed ddal Bondiau Premiwm. Fodd bynnag, bydd angen i riant neu warcheidwad y plentyn ofalu am y Bondiau, sef naill ai:

- y riant neu'r gwarcheidwad a brynodd y Bondiau, neu
- y riant neu'r gwarcheidwad a enwebwyd gan y sawl a brynodd y Bondiau.

Bydd unrhyw Bondiau sy'n cael eu prynu a gwobrau sy'n cael eu talu yn gysylltiedig â'r plentyn yn eiddo iddo. Y riant neu'r gwarcheidwad fydd yn gyfrifol am reoli'r Bondiau ac unrhyw wobrau a delir er budd y plentyn. Yna, bydd y plentyn yn dechrau rheoli ei Bondiau ei hun pan fydd yn 16 oed.

Byddwn yn anfon unrhyw waith papur, gwobrau a enillwyd, a thaliadau Bondiau Premiwm sy'n cael eu cyfnewid am arian at y riant neu'r gwarcheidwad.

Gall mwy nag un riant neu warcheidwad enwebedig reoli Bondiau Premiwm ar ran yr un plentyn. Yn yr achos hwn, bydd gan bob riant neu warcheidwad enwebedig rif deiliad ar wahân ar gyfer y plentyn. Ni chaiff y plentyn ddal mwy na chyfanswm o £50,000 mewn Bondiau Premiwm.

Newidiadau i'r cytundeb

Byddwn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw am unrhyw newid nad yw o fudd i chi trwy gyhoeddi hysbysebion mewn amrywiaeth o bapurau newydd a thrwy ddiweddarau ein gwefan. Ni fyddwn yn anfon unrhyw hysbysiad personol o'r newid atoch chi.

Bondiau Premiwm a'r gyfraith

Mae Bondiau Premiwm yn warantau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Benthyciadau Gwladol 1968 a Rheoliadau Cynilion Cenedlaethol (Rhif 2) 2015.

Rydym wedi ceisio sicrhau nad oes gwrthdaro rhwng y cytundeb cwsmer hwn a'r ddeddfwriaeth ond, os bydd gwrthdaro, y ddeddfwriaeth fydd yn gymwys.

Telerau cyffredinol Cynilo gydag NS&I

Mae'r telerau cyffredinol hyn yn amlinellu beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni, a beth mae angen i chi ei wneud, fel bod popeth yn gweithio'n hwylus pan fyddwch yn cynilo gydag NS&I. Gan nad yw'r telerau cyffredinol yn benodol i unrhyw gyfrif arbennig, mae'n bosibl na fydd rhai adrannau yn berthnasol i'ch cyfrif chi. Darllenwch delerau'r cyfrif yn llawn i ddeall beth sy'n berthnasol.

Dod yn gwsmer ac agor cyfrif gydag NS&I

Pan fyddwch yn gwneud cais i agor cyfrif gydag NS&I am y tro cyntaf, byddwch yn gofyn am greu cytundeb gyda ni.

- Bydd angen i ni gadarnhau ychydig bethau cyn i ni dderbyn eich cais. Yn bwysicaf oll, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni gadarnhau pwy ydych chi a'ch cyfeiriad. Gallem gadarnhau pwy ydych chi a'ch cyfeiriad eto, ar unrhyw adeg.

Fel arfer, rydym ni'n defnyddio asiantaeth gwirio credyd i wneud hyn. Os bydd angen i ni gael dogfennau gennych chi, byddwn yn rhoi gwybod pa ddogfennau y mae eu hangen arnom ac erbyn pryd. Os bydd angen i chi eu hanfon drwy'r post, mae'n bosibl y byddwch eisiau defnyddio gwasanaeth post cofrestredig. Ni fyddwn yn gyfrifol os byddant yn mynd ar goll neu'n cael eu hoedi.

Bydd eich cytundeb gyda ni yn dechrau pan rown wybod i chi ein bod wedi derbyn eich cais (oni bai ein bod ni'n rhoi dyddiad dechrau gwahanol i chi). Byddwn yn ystyried bod y cyfrif wedi'i agor ar y dyddiad y cawsom eich buddsoddiad – os bydd yn ddyddiad arall, byddwn yn rhoi gwybod i chi. Daw'r cytundeb i ben pan fyddwch yn rhoi'r gorau i fod yn gwsmer i ni o dan delerau'r cytundeb hwn.

Rydym yn derbyn y rhan fwyaf o geisiadau, ond byddwn yn gwrthod ceisiadau weithiau, er enghraifft os na ddarparoch yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnom ni. Os byddwn yn gwrthod eich cais, byddwn yn ad-dalu eich arian.

Os byddwch yn gwneud cais ar ran rhywun arall, rhaid i chi gadarnhau ei fod wedi cytuno i chi wneud hyn a'ch bod wedi dangos y cytundeb hwn iddo.

Ni fyddwch yn gymwys i agor cyfrif os ydych yn fethdalwr heb ei ryddhau neu os nad oes gennych allu cyfreithiol.

Sut gallwch reoli'ch cyfrif gyda ni

Yn gyffredinol, gall ein cyfrifon gael eu rheoli ar-lein, dros y ffôn neu drwy'r post. I gael gwybod sut gallwch reoli'ch cyfrif, darllenwch delerau'r cyfrif.

Rheoli cyfrifon ar-lein a thros y ffôn

- Bydd angen i chi gofrestru er mwyn rheoli'ch cyfrif ar-lein neu dros y ffôn. Os byddwch yn gwneud cais am gyfrif ar-lein neu dros y ffôn, byddwn yn eich cofrestru ar yr un pryd – neu gallwch gofrestru trwy fynd i'n gwefan. Byddwn yn gofyn i chi ddewis cyfrinair a darparu gwybodaeth ddiogelwch arall. Gallwch newid eich cyfrinair a'ch gwybodaeth ddiogelwch arall ar-lein neu drwy ein ffonio ni.

Ein nod yw darparu ein gwasanaeth ar-lein 24 awr y dydd, ond bydd cyfnodau pan na fydd ar gael. Gall hyn ddigwydd pan fydd angen i ni wneud gwaith cynnal a chadw neu uwchraddio ein systemau, neu os cawn broblemau technegol, sy'n tarfu ar y gwasanaeth. Os bydd problem, gwnawn ein gorau i adfer y gwasanaeth cyn gynted â phosibl.

Gallem atal neu gyfyngu ar y gwasanaeth os bydd angen i ni wneud hynny i ddiogelu ein cwsmeriaid. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosibl, naill ai'n bersonol neu drwy roi neges ar ein gwefan. Efallai y byddwn yn terfynu'r gwasanaeth neu ran ohono ar unrhyw adeg drwy roi rhybudd rhesymol i chi.

Gallem gyflwyno ffyrdd newydd o ryngweithio â ni, er enghraifft apiau ar gyfer ffonau clyfar a llechi. Gallai'r rheiny fod â'u telerau defnyddio eu hunain, y byddwn yn gofyn i chi eu darllen a'u derbyn cyn dechrau eu defnyddio.

Rheoli cyfrifon drwy'r post

Os byddwch yn rheoli cyfrif drwy'r post, bydd ffurflenni i'w defnyddio. Gallwch lawrlwytho ac argraffu'r rhan fwyaf o'n ffurflenni o'n gwefan, neu ffoniwch ni ac fe anfonwn unrhyw ffurflen angenrheidiol atoch. Rhaid i chi ddarparu'r holl fanylion y gofynnwn amdanynt ar y ffurflen. Os bydd rhywbeth ar goll, yn aneglur neu'n anghywir, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu gweithredu'ch cyfarwyddiadau yn syth oherwydd bydd angen i ni gysylltu â chi i gael rhagor o wybodaeth.

- Os byddwch yn anfon siec neu ddrafft banc er mwyn buddsoddi, dylai fod yn daladwy i 'NS&I'. Rhaid i'r siec gael ei thynnu ar gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu personol yn y Deyrnas Unedig yn eich enw chi.

Gwneud cais fel atwrnai neu ddirprwy neu ymddiriedolwr

Os byddwch yn gweithredu fel atwrnai neu ddirprwy ar ran unigolyn arall, rhaid i'ch cais cyntaf i agor cyfrif gael ei wneud drwy'r post (hyd yn oed ar gyfer cyfrifon ar-lein neu ffôn). Bydd angen i chi amgáu copi gwreiddiol (neu gopi ardystiedig) o'r Pŵer Atwrnai neu Orchymyn y Llys Gwarchod. Gallwch ein ffonio ni i ofyn am ffurflen gais neu ei lawrlwytho o'n gwefan. Pan fydd y cyfrif wedi ei agor, gallwch edrych arno ac, o bosibl, gwneud rhai trafodion ar-lein neu dros y ffôn – gweler [nsandi.com/poa](https://www.nsandi.com/poa) am fanylion. Hefyd, byddwch yn gallu agor cyfrifon eraill ar-lein neu dros y ffôn ar gyfer yr un unigolyn.

Os bydd telerau'r cyfrif yn caniatáu, gallwch agor cyfrif fel ymddiriedolwr naill ai ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag ymddiriedolwyr eraill. Os bydd mwy na dau ymddiriedolwr, gallem ofyn am fanylion yr holl ymddiriedolwyr. Yn achos cyfrifon ymddiriedolaeth, byddwn yn derbyn cyfarwyddiadau fel rheol ar yr amod eu bod wedi'u llofnodi gan yr holl lofnodwyr gofynnol. Mae hyn yn golygu na fydd ymddiriedolwyr yn gallu defnyddio ein gwasanaeth ffôn ac ar-lein.

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n gilydd

Byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi am eich cyfrifon ac yn darparu cyfriflenni rheolaidd. Os bydd angen i ni gysylltu â chi, byddwn yn eich ffonio, yn ysgrifennu atoch drwy e-bost, neges destun neu lythyr, neu'n cysylltu â chi trwy ein gwasanaeth ar-lein.

- Rhaid i chi ddweud wrthym ni pryd bynnag y byddwch yn newid eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost neu gyfrif banc enwebedig. Gallwch ddiweddarau'r rhan fwyaf o'r manylion hyn ar-lein neu drwy gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion ar ddiwedd y cytundeb hwn.

Newidiadau i'r cytundeb hwn

Gallem newid y cytundeb hwn ar unrhyw adeg. Oni bai bod telerau'r cyfrif yn datgan yn wahanol, fel arfer, byddwn yn rhoi dau fis o rybudd i chi cyn i'r newid ddigwydd. Os na fyddwch yn cytuno â'r newid, gallwch gau neu drosglwyddo'ch cyfrif cyn i'r newid ddod i rym. Bydd y telerau newydd yn berthnasol os bydd eich cyfrif yn aros ar agor.

- Cewch y fersiwn ddiweddaraf o'r cytundeb hwn ar [nsandi.com](https://www.nsandi.com), neu gofynnwch i ni ac fe anfonwn gopi atoch.

Ynglŷn â'n cyfraddau llog

Sut mae cyfraddau llog yn cael eu gosod

Trysorlys EM sy'n gosod ein cyfraddau llog a chyfradd y gronfa wobrau Bondiau Premiwm, a gallant newid o dro i dro.

Yn nodweddiadol, mae newidiadau yn cyfrif am:

- brisiau giltiau, cyfradd sylfaenol Banc Lloegr ac unrhyw gyfradd farchnad arall a restrir yn gyhoeddus
- y cyfraddau llog a delir neu a godir gan sefydliadau ariannol eraill
- gofynion benthycy'r Llywodraeth
- ein costau gweinyddol
- penderfyniadau gan ombwdsmyrn perthnasol
- gofynion rheoliadol
- unrhyw godau ymarfer yr ydym yn eu dilyn.

Cofiwch, os bydd chwyddiant yn uwch na chyfradd llog y cyfrif, bydd yn gostwng gwerth gwirioneddol yr arian yn eich cyfrif gydag amser.

Newidiadau i gyfraddau llog newidiol

Pan fydd ein cyfraddau'n newid, byddwn yn diweddarau ein gwefan a'n deunydd ysgrifenedig.

Os bydd cyfradd llog eich cyfrif yn gostwng, byddwn yn cysylltu â chi'n bersonol o leiaf ddau fis cyn i'r newid ddod i rym. Os na fyddwch yn cytuno â'r gyfradd llog newydd, gallwch gau neu drosglwyddo'ch cyfrif ar unrhyw adeg cyn y newid. Bydd y gyfradd llog newydd yn berthnasol os bydd eich cyfrif yn aros ar agor.

Ni fyddwn yn cysylltu â chi'n bersonol os bydd cyfradd llog eich cyfrif yn codi.

Newidiadau i gyfraddau llog sefydlog

O bryd i'w gilydd, byddwn yn cyflwyno cyhoeddiadau newydd o gyfrifon cyfradd sefydlog gyda chyfraddau llog gwahanol. Fel arfer, ni fyddwn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw am hyn.

Os bydd cyfradd llog eich cyfrif yn sefydlog am gyfnod, ni fydd newidiadau i'r gyfradd llog yn berthnasol yn ystod y cyfnod hwnnw. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, gallem gynnig cyfle i chi adnewyddu eich cyfrif am dymor sefydlog arall. Os felly, gallai'r gyfradd llog fod yn wahanol.

Newidiadau i gyfradd y gronfa wobrau Bondiau Premiwm

Byddwn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw o newidiadau i gyfradd y gronfa wobrau, strwythur y gystadleuaeth tynnu rhifau a'r siawns o ennill trwy gyhoeddi hysbysebion mewn amrywiaeth o bapurau newydd a thrwy ddiweddarau ein gwefan.

Talu arian i mewn

Mae'n rhaid i bob taliad i mewn gennych gael ei wneud mewn punnoedd sterling, o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig yn eich enw chi. Os byddwch yn defnyddio cerdyn debyd, mae'n rhaid iddo gael ei roi gan fanc neu gymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig a pherthyn i gyfrif yn eich enw chi. (Ystyr 'banc yn y Deyrnas Unedig' yw sefydliad credyd fel y'i diffinnir yn Rhestr Termau Llawlyfr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA.) Dyddiad pob taliad i mewn fydd y dyddiad pan dderbyniwn eich siec, awdurdodiad cerdyn neu drosglwyddiad banc. Ni fyddwn yn derbyn cardiau talu hwylusydd, cardiau credyd nac arian o sefydliadau ariannol nad ydynt o'r Deyrnas Unedig.

Faint o amser mae'n ei gymryd i daliadau i mewn glirio

Ni allwch dynnu arian allan oni bai bod digon o arian cliriedig yn eich cyfrif. Bydd arian a delir i mewn trwy drosglwyddiad electronig sy'n cyrraedd erbyn 18:30 ar ddiwrnod bancio yn clirio ar y diwrnod bancio nesaf fan bellaf fel arfer. Bydd arian a delir i mewn drwy siec a cherdyn debyd yn clirio erbyn y seithfed diwrnod bancio fan bellaf ar ôl i'r arian gael ei dderbyn.

Sut rydym yn gwneud taliadau i chi

- Pan fyddwch yn codi arian neu'n derbyn taliad gennym, byddwn yn talu'r arian i'ch cyfrif enwebedig fel arfer.

Eich cyfrif enwebedig

Bydd angen i chi roi'r cod didoli a'r rhif cyfrif ar gyfer cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu personol yn y Deyrnas Unedig yn eich enw chi i ni, ar gyfer pob cyfrif sydd gennych gyda ni. Ein henw ar hwn yw eich 'cyfrif enwebedig'.

Os nad oes gennym fanylion eich cyfrif banc enwebedig, gallem ofyn amdanynt cyn i ni eich talu chi. Neu, gallem eich talu chi trwy warant (fel siec) sy'n cael ei hanfon yn y post. Os felly, byddwn yn ystyried mai'r dyddiad talu yw'r dyddiad ar y warant.

Faint o amser mae'n ei gymryd i gael eich taliad

Mae'r amser y mae'n ei gymryd i gael eich taliad yn dibynnu ar ba gyfrif NS&I sydd gennych, faint o arian rydych chi am ei godi a sut rydych yn rhoi eich cyfarwyddiadau codi arian i ni.

Taliadau o ISA Uniongyrchol, Cynilwr Uniongyrchol, Bondiau Incwm a Chyfrif Buddsoddi

- Rhoi eich cyfarwyddiadau ar-lein neu dros y ffôn:
Fel arfer, bydd y taliad yn cyrraedd eich cyfrif enwebedig erbyn diwedd y diwrnod bancio cyntaf ar ôl y diwrnod pan dderbyniwn eich cyfarwyddiadau.
- Rhoi eich cyfarwyddiadau drwy'r post:
Pan fyddwn yn derbyn eich cyfarwyddiadau cyn 13:00 ar ddiwrnod bancio, byddwn yn eu prosesu ar y diwrnod bancio canlynol. Yna, fel arfer, bydd y taliad yn cyrraedd eich cyfrif enwebedig ar y diwrnod bancio ar ôl hynny. Os byddwn yn derbyn eich cyfarwyddiadau ar ôl 13:00 ar ddiwrnod bancio, ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul, neu ar wyliau banc neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, ystyriwn ein bod wedi derbyn y cyfarwyddiadau ar y diwrnod bancio canlynol.
- Codi symiau mwy:
I godi arian uwchlaw swm penodol (gweler [nsandi.com/payments](https://www.nandi.com/payments) neu ffoniwch ni), bydd yn cymryd yr un faint o amser i chi gael eich taliad â chyfrifon eraill NS&I, fel yr amlinellir isod.

Taliadau o gyfrifon eraill NS&I

- Rhoi eich cyfarwyddiadau ar-lein neu dros y ffôn:
Pan fyddwn yn derbyn eich cyfarwyddiadau cyn 20:00 ar ddiwrnod bancio, byddwn yn eu prosesu ar yr un diwrnod. Fel arfer, bydd y taliad yn cyrraedd eich cyfrif enwebedig ddau ddiwrnod bancio wedi hynny. Os byddwn yn derbyn eich cyfarwyddiadau ar ôl 20:00 ar ddiwrnod bancio, ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul, neu ar wyliau banc neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, ystyriwn ein bod wedi derbyn y cyfarwyddiadau ar y diwrnod bancio canlynol.
- Rhoi eich cyfarwyddiadau drwy'r post:
Pan fyddwn yn derbyn eich cyfarwyddiadau cyn 13:00 ar ddiwrnod bancio, byddwn yn eu prosesu ar y diwrnod bancio canlynol. Yna, fel arfer, bydd y taliad yn cyrraedd eich cyfrif enwebedig ddau ddiwrnod bancio wedi hynny. Os byddwn yn derbyn eich cyfarwyddiadau ar ôl 13:00 ar ddiwrnod bancio, ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul, neu ar wyliau banc neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, ystyriwn ein bod wedi derbyn y cyfarwyddiadau ar y diwrnod bancio canlynol.

Diogelu'ch arian

Rydym yn cymryd camau i gadw'ch arian a'ch cyfrifon yn ddiogel, ac yn gofyn i chi wneud yr un peth.

Dywedwch wrthym os na fydd rhywbeth yn edrych yn iawn

Rhowch wybod i ni ar unwaith os na fydd rhywbeth yn edrych yn iawn ar unrhyw wybodaeth a rown i chi, os byddwch yn sylwi ar unrhyw weithgarwch amheus yn gysylltiedig â'ch cyfrif, neu os byddwch yn amau bod eich diogelwch wedi'i beryglu.

Gofalu am eich gwybodaeth ddiogelwch

Os byddwch yn rheoli'ch cyfrif ar-lein neu dros y ffôn, byddwn yn defnyddio'ch cyfrinair a'ch gwybodaeth ddiogelwch i gael gwybod pwy ydych chi. Byddwn yn ystyried bod cyfarwyddiadau'n ddilys os bydd y sawl sy'n rhoi'r cyfarwyddiadau wedi defnyddio'r cyfrinair cywir a'r wybodaeth ddiogelwch gywir. Er eich diogelwch eich hun, rhaid i chi gadw'ch cyfrinair a'ch gwybodaeth ddiogelwch yn ddiogel a chymryd pob cam rhesymol i atal unrhyw un arall rhag mynd at eich cyfrifon.

Er enghraifft:

- peidiwch byth â rhoi eich cyfrinair na'ch gwybodaeth ddiogelwch i unrhyw un (ac ni fyddwn byth yn gofyn am y cyfrinair cyfan dros y ffôn)
- peidiwch â nodi'ch cyfrinair na'ch gwybodaeth ddiogelwch mewn modd a fyddai'n rhwydd iddynt ddod yn hysbys i rywun arall
- peidiwch â gadael y ddyfais rydych chi wedi mewngofnodi arni i ddefnyddio ein wasanaeth.

Os ydych yn amau bod eich gwybodaeth ddiogelwch gan rywun arall

Os ydych yn credu neu'n amau bod rhywun arall wedi darganfod eich cyfrinair neu eich gwybodaeth ddiogelwch, ewch ar-lein i newid eich cyfrinair a'ch gwybodaeth ddiogelwch arall ar unwaith.

Os ydych yn gwybod neu'n amau bod eich cyfrinair neu eich gwybodaeth ddiogelwch arall a ddefnyddiwch i reoli'ch cyfrif ar-lein neu dros y ffôn wedi cael ei golli/cholli, ei (d)dwyn neu ei (d)defnyddio gan rywun arall heb eich caniatâd, rhaid i chi ddweud wrthym cyn gynted â phosibl drwy ein ffonio ni. Gallem ofyn am gadarnhad ysgrifenedig o hyn.

Ni fyddwn byth yn cysylltu â chi i ofyn i chi ddatgelu eich cyfrinair neu eich gwybodaeth ddiogelwch i ni. Os cewch gais o'r fath gan unrhyw un, hyd yn oed os byddant yn defnyddio ein henw a'n logo, peidiwch â rhoi unrhyw wybodaeth iddynt. Yn hytrach, rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn ar unwaith.

Os byddwn yn amau twyll neu fygythiadau diogelwch

Byddwn yn cysylltu â chi dros y ffôn neu drwy'r post os byddwn yn amau twyll neu fygythiadau diogelwch i'ch cyfrif, oni bai bod y gyfraith yn ein hatal rhag gwneud hynny.

Os bydd problem gyda thaliad

Rhowch wybod i ni os bydd problem gyda thaliad. Os ydych chi'n credu bod taliad wedi'i wneud o'ch cyfrif ac na wnaethoch ei awdurdodi, neu os ydych wedi gofyn i ni wneud taliad ac yn credu nad ydym ni wedi'i gwblhau yn gywir, rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted ag y gallwch – defnyddiwch y manylion cyswllt ar ddiwedd y cytundeb hwn. Gwnawn bopeth a allwn i'w gywiro.

Os gwnaed taliad na wnaethoch ei awdurdodi

Os na wnaethoch awdurdodi taliad o'ch cyfrif, fel arfer, byddwn yn adfer y cyfrif i'r sefyllfa y byddai wedi bod ynddi pe na bai'r ad-daliad nas awdurdodwyd wedi cael ei wneud. Mae hyn yn golygu ad-dalu'r taliad a thalu unrhyw log neu wobrau y gwnaethoch eu colli. Ni fydd gennym unrhyw atebolrwydd pellach i chi.

Ni fyddwn yn gwneud ad-daliadau na thaliadau os digwyddodd y taliad nas awdurdodwyd:

- oherwydd ni wnaethoch gymryd gofal rhesymol i gydymffurfio â 'Diogelu'ch arian'
- os yw'ch cyfrinair neu'ch gwybodaeth ddiogelwch wedi cael ei golli/cholli neu ei (d)dwyn, ac ni ddywedoch wrthym cyn gynted ag y gallech.

Fodd bynnag, byddwn fel arfer yn ad-dalu trafodion nas awdurdodwyd:

- sy'n digwydd ar ôl i chi ddweud wrthym fod eich cyfrinair neu'ch gwybodaeth ddiogelwch wedi cael ei golli/cholli neu ei (d)dwyn
- os na fu'n bosibl i chi ddweud wrthym am broblem ac arnom ni oedd y bai am hynny.

Ni fyddwn yn gwneud ad-daliad na thaliad o dan unrhyw amgylchiadau os byddwn yn amau eich bod chi'n rhan o dwyll.

Byddwn yn cysylltu â chi dros y ffôn neu drwy'r post os oes amheuan o dwyll neu fygythiadau diogelwch, neu dwyll neu fygythiadau diogelwch go iawn yn gysylltiedig â'ch cyfrif, oni bai bod y gyfraith yn ein hatal rhag gwneud hynny.

Os na fyddwch yn derbyn taliad

Os gwnawn daliad o'ch cyfrif NS&I i'ch cyfrif enwebedig ac nid ydych yn ei gael, byddwn yn ad-dalu'r arian i'ch cyfrif NS&I cyn gynted ag y gallwn, ynghyd ag unrhyw log y byddech wedi'i ennill ar yr arian pe na bai wedi gadael y cyfrif

NS&I. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gwneud hyn os rhoddoch chi'r cod didoli a/ neu'r rhif cyfrif anghywir i ni, neu os gallwn ddangos bod y taliad wedi cyrraedd eich cyfrif enwebedig.

Os rhoddech fanylion anghywir i ni

Os rhoddech y manylion anghywir i ni ar gyfer eich cyfrif enwebedig ac mae taliad yn mynd ar goll, byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i adfer yr arian ac yn rhoi gwybod i chi am y canlyniad, ond ni fyddwn yn gyfrifol. Os na allwn adfer yr arian, gallwch ofyn i ni am yr holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael fel y gallwch gyflwyno adhawliad cyfreithiol am ad-daliad. Byddwn yn darparu'r wybodaeth hon i chi (ac eithrio lle y byddai gwneud hynny yn anghyfreithlon).

Os na fyddwn yn sicrhau bod arian ar gael yn ystod y cyfnodau cytunedig

Os byddwch yn talu arian i mewn i gyfrif NS&I ond ni fyddwn wedi sicrhau bod yr arian ar gael i chi pan gytunom, byddwn yn ôl-ddyddio'r credyd i'ch cyfrif fel ei fod yn ymddangos eich bod wedi derbyn yr arian pan ddylech fod wedi'i dderbyn.

Os byddwch yn derbyn arian ar gam

Os telir arian i'ch cyfrif ar gam, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym. Gallwn ei gymryd yn ôl a'i ddychwelyd i'r talwr. Os na allwn gael yr arian yn ôl oddi wrthy, mae'n bosibl y bydd rhaid i ni roi gwybodaeth berthnasol i'r talwr i'w helpu i gael yr arian yn ôl oddi wrthy. Mae hyn yn cynnwys rhoi eich gwybodaeth bersonol iddo.

Cyflawni eich cyfarwyddiadau

Gwnawn ein gorau i gyflawni eich cyfarwyddiadau heb oedi. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n bosibl na allwn wneud hyn.

Gwahardd, atal neu gyfyngu ar daliadau ar-lein a thros y ffôn

Os byddwn yn amlygu risg i ddiogelwch eich cyfrif, gallem wahardd, atal neu gyfyngu ar eich gallu i wneud taliadau o'ch cyfrif ar-lein neu dros y ffôn. Enghraifft o risg ddiogelwch fyddai petaem ni'n amau bod rhywun arall yn ceisio cael at eich cyfrif heb eich caniatâd.

Byddwn yn ceisio rhoi gwybod i chi cyn i ni wahardd, atal neu gyfyngu ar eich gallu i godi arian ar-lein neu dros y ffôn, a rhown i chi ein rhesymau dros wneud hyn. Byddwn yn defnyddio'r manylion cyswllt sydd gennym ar eich cyfer.

Ni fyddwn yn rhoi gwybod i chi os oes rhesymau cyfreithiol sy'n ein hatal ni, neu os byddai rhoi gwybod i chi yn peryglu diogelwch.

Byddwn yn caniatáu i chi godi arian ar-lein neu dros y ffôn eto yn ôl yr arfer cyn gynted ag y byddwn yn tybio nad oes risg i ddiogelwch eich cyfrif mwyach.

Pryd y gallwn wrthod cyfarwyddiadau

Gallem wrthod gweithredu'ch cyfarwyddiadau (gan gynnwys cyfarwyddyd i wneud taliad):

- os byddwn yn amau twyll
- os byddwn yn amau na roddwyd y cyfarwyddiadau gan rywun oedd â hawl i roi cyfarwyddiadau i ni
- os bydd y cyfarwyddiadau yn aneglur, yn anghyflawn neu os nad ydych yn eu rhoi fel yr ydym yn gofyn amdanynt
- os bydd yn bosibl y byddwn yn torri cyfraith, rheoliad neu god ymarfer os byddwn yn gweithredu'r cyfarwyddiadau.

Byddwn bob amser yn ceisio dweud wrthyhch os bydd hyn yn digwydd, a pham – oni bai ein bod yn cael ein hatal yn gyfreithiol rhag dweud wrthyhch.

Pryd y gallwn gau eich cyfrif

Gallem gau eich cyfrif ar unrhyw adeg trwy roi o leiaf ddau fis o rybudd ysgrifenedig i chi.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gallwn benderfynu cau eich cyfrif ar unwaith. Gallem wneud hyn:

- os ydym o'r farn bod unrhyw unigolyn a enwir yn eich cais wedi rhoi gwybodaeth ffug
- os ydym yn amau eich bod yn defnyddio'ch cyfrif at ddiben anghyfreithlon
- os nad oedd gennych yr hawl i wneud cais am y cyfrif na'i ddal
- os nad ydych wedi cadw at y cytundeb hwn
- os oes gennym unrhyw reswm dilys arall i wneud felly.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi os bydd rhaid i ni wneud hyn.

Cyfrifon ar y cyd

Gall pob deiliad cyfrif roi cyfarwyddiadau yn annibynnol

Os delir cyfrif ar y cyd, mae'r cyfrif yn eiddo ar y cyd i'r ddau ddeiliad cyfrif. Mae hyn yn golygu bod y ddau ddeiliad cyfrif yn dal y cyfrif ac yn berchen ar yr arian ynddo. Gall pob deiliad cyfrif wneud y canlynol, yn annibynnol:

- defnyddio'r cyfrif gyda'i gyfrinair a'i wybodaeth ddiogelwch ei hun
- talu arian i mewn a chodi arian
- rhoi unrhyw gyfarwyddyd arall ynglŷn â'r cyfrif.

Yn achos y Cyfrif Buddsoddi, gallwch ddewis rheoli'r cyfrif gyda'ch gilydd neu ar wahân.

Gohebiaeth

Byddwn yn ysgrifennu at ddeiliad y cyfrif a enwir gyntaf ar y cais i agor y cyfrif.

Dileu deiliad cyfrif o gyfrif ar y cyd

Bydd angen i'r ddau ohonoch gytuno os ydych eisiau dileu enw un o'r deiliaid cyfrif.

Os bydd deiliad cyfrif ar y cyd yn marw

Yn achos marwolaeth un o ddeiliaid cyfrif ar y cyd, bydd perchenogaeth ar y cyfrif yn trosglwyddo i'r deiliad cyfrif sy'n goroesi, a fydd â hawl i reoli'r cyfrif ar yr un telerau.

Anghydfodau

Os bydd y naill neu'r llall ohonoch yn rhoi gwybod i ni am anghydfod rhyngoch, neu'n gofyn i ni dderbyn cyfarwyddiadau gan y ddau ohonoch yn unig, ni fyddwch yn gallu defnyddio ein gwasanaeth ffôn ac ar-lein mwyach i roi cyfarwyddiadau i ni. Yn hytrach, byddwch yn gallu rhoi cyfarwyddiadau i ni drwy'r post yn unig, wedi'u llofnodi gan y ddau ohonoch. Pan fydd y ddau ohonoch yn rhoi gwybod i ni fod yr anghydfod wedi'i ddatrys, mae'n bosibl y gallwch ddefnyddio ein gwasanaeth ffôn ac ar-lein unwaith eto.

Sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth

Rydym yn trin yr holl wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni amdanoch chi ac eraill yn breifat ac yn gyfrinachol.

Rydym yn parchu eich hawl i breifatrwydd ac yn deall pwysigrwydd gwarchod y wybodaeth bersonol rydym yn ei dal. Gweler ein hysbysiad preifatrwydd am fanylion llawn – mae ar gael yn nsandi.com/privacy-notice neu drwy ein ffonio ni.

Os na fyddwch yn fodlon ar rywbeth

Cwynion

Os byddwn yn gwneud camgymeriad, ceisiwn unioni pethau'n gyflym ac yn ddifffwdan, ac mae gennym weithdrefn i ddatrys cwynion yn effeithiol ac yn deg.

Sut i gwyno

- ffoniwch ni ar **0800 092 1286** (yn rhad ac am ddim o'r Deyrnas Unedig)
- ewch i nsandi.com/contact-us-email
- ysgrifennwch at y Tîm Gofal Cwsmeriaid yn y cyfeiriad ar ddiwedd y cytundeb hwn.

Os na chaiff eich cwyn ei datrys i'ch boddhad

Os byddwch yn anghytuno â phenderfyniad a wnaed gennym, mae'n bosibl y gallech gyfeirio'ch cwyn at y Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol yn rhad ac am ddim. Dyma gorff a sefydlwyd o dan y gyfraith er mwyn rhoi gwasanaeth annibynnol ac am ddim i ddefnyddwyr i ddatrys anghydfodau.

Gallwch eu ffonio ar:

- **0800 023 4567** (yn rhad ac am ddim o'r Deyrnas Unedig) neu
- **0300 123 9123** (codir pris galwadau i rifau 01 neu 02 ar dariffau ffonau symudol am alwadau i'r rhif hwn).

Hefyd, gallwch:

- fynd i financial-ombudsman.org.uk neu
- ysgrifennu atynt yn Exchange Tower, Llundain E14 9SR.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch

I gael rhagor o wybodaeth am ein gweithdrefn gwyno, lawrlwythwch ein taflen gwyno o nsandi.com/complaints, neu cysylltwch â ni ac fe anfonwn gopi atoch.

Ynglŷn â'r cytundeb hwn

Bydd y cytundeb hwn (ac unrhyw ymrwymiadau anghytundebol sy'n deillio ohono) yn cael ei reoli a'i ddehongli yn unol â chyfraith Lloegr. Mae gan lysoedd Lloegr awdurdodaeth lwyr i ddatrys unrhyw anghydfod a allai godi mewn perthynas ag unrhyw gytundeb rhyngoch chi a ni (gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw ymrwymiadau anghytundebol). Gwneir pob cytundeb yn Saesneg.

Ynglŷn ag NS&I

Mae NS&I (National Savings and Investments) yn adran y llywodraeth ac yn asiantaeth weithredol Canghellor y Trysorlys, a'n rôl yw darparu cyllid i lywodraeth y dydd trwy gynnig cyfrifon i gwsmeriaid personol. Mae NS&I yn gweithredu o dan awdurdod y Cyfarwyddwr Cynilion – rôl a grëwyd o dan y gyfraith i gyflawni busnes y Banc Cynilo Cenedlaethol. Lle y cyfeiriwn at "ni" ac "ein", rydym yn golygu NS&I yn gweithredu fel y Cyfarwyddwr Cynilion (neu o dan awdurdod y Cyfarwyddwr). Gwneir y telerau cyffredinol hyn a'r telerau ar gyfer ein holl gyfrifon o dan Ddeddf Benthyciadau Gwladol 1968 neu Ddeddf Banc Cynilo Cenedlaethol 1971. Mae pencadlys NS&I yn 1 Drummond Gate, Pimlico, Llundain SW1V 2QX.

Cefnogir NS&I gan Drysorlys Ei Mawrhydi, sef gweinyddiaeth economaidd a chyllid y llywodraeth. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn rheoli gwariant cyhoeddus, yn gosod cyfeiriad polisi economaidd y Deyrnas Unedig ac yn gweithio i gyflawni twf economaidd cryf a chynaliadwy. Mae wedi'i leoli yn 1 Horse Guards Road, Llundain SW1A 2HQ

Sut i gysylltu â ni

Gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

NS&I

Sunderland

SR43 2SB

Ffôn: **08085 007 007**

Ewch i'n gwefan: **nsandi.com**

Cysylltu a chymorth



Ewch i'n gwefan yn **nsandi.com**



Ffoniwch ni ar **08085 007 007**

Rydym ni yma yn y Deyrnas Unedig bob dydd. Mae galwadau o'r Deyrnas Unedig am ddim. Gallai eich galwad gael ei recordio i'n helpu i roi'r gwasanaeth gorau i chi.



Anfonwch neges drydar atom **@nsandihelp**



Ysgrifennwch atom yn **NS&I, Sunderland SR43 2SB**

A oes angen fformat gwahanol arnoch chi?

Gofynnwch i ni am gael fersiwn:

- Braille
 - Tâp sain
 - Cryno ddisg
 - Print bras
-

A ydych chi'n drwm eich clyw neu â nam lleferydd?

Gallwch gysylltu â ni trwy'r Gwasanaeth Cyfnewid Testun: deialwch **18001** trwy'ch ffôn testun ac yna rhowch ein prif rif ffôn. Neu ffoniwch ein gwasanaeth Minicom yn uniongyrchol ar **0800 056 0585**.

Mae National Savings and Investments yn Nod Masnach y Cyfarwyddwr Cynilion